W1975-S.220

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM Y

## PARCH. JOHN WILLIAMS,

*O BENTRE PADARN,*

GYNT O

LEDROD, YN SWYDD ABERTEIFI,

*YR HWN A HUNODD GYD A'I DADAU*

Y 29ain dydd o Awst, 1831,

YN DAIR A PHEDWAR UGAIN MLWYDD O OEDRAN.

**Gan Evan Rees.**

*A gyhoeddwyd trwy gydsyniad Cyfarfod Misol Swydd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Tregaron, Chwefror* 15, 16, 1832.

"Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed teg, yn hen, ac yn gyflawn o ddyddiau; ac efe a gasglwyd at ei bobl."—GEN. XXV. 8.

ABERYSTWYTH:
ARGRAFFWYD GAN E. WILLIAMS.
1832.

X205317390
5997.

GALARWN, ac wylwn, wrth weled
Mor freued a byred yw'n dydd,
Mor gyflym yr ydym yn myned,
At bryfed i'r gwely o bridd:
Y borau, fel blodau, yn harddwych,
Yr ydym yn drefnwych ein gwedd;
A'r prydnawn yn uniawn yn gwywo,
Dan gwyno rhaid 'mado i'r bedd!

2 Mae'n amser galaru heb dewi,
Waith colli o'n cwmni rai cu,
Rhai cedyrn, di-ddychryn, di-ddichell,
Rhai weithiodd, heb gymhell, yn hy':
Eu golwg yn amlwg oedd union,
Yn gynnes eu calon ar go'dd;
At Frenin y fyddin a'i foddion,
Hwy fuon' yn ffyddlon o'u bodd.

3 Ein brawd *Thomas Jenkins* aeth adre',
Trwy rydau'r Iorddonen oedd gref;
*Shibboleth* yn helaeth llefarodd,
Trwy foroedd fe nofiodd i'r nef;
I'w gartref trag'wyddol diangodd,
Fel miloedd o'i frodyr o'i fla'n;
Er gorfod cyfarfod â marw,
Mae heddyw'n bur *groyw* ei gân.

4 *Theophilus Jones*, o Dregaron,
Trwy droion doeth union ei Dad,

A dynwyd o dan ei ddu donau,
I'w gartref trag'wyddol a'i wlad:
*John Edward* aeth adre' i'w drigfan,
Yn gyfan i'r Ganaan ar go'dd,
At luoedd er's oesoedd sydd yno,
Yn seinio Hosanna o'u bodd.

5 BARCHEDIG JOHN WILLIAMS, o Ledrod,
Orphenodd ei ddiwrnod, mae'n wir;
Gwr grymus, llafurus, heb orphwys,
Gwr medrus ymadrodd a phur;
Gwr hynod ei hanes a chynnes,
Fe deithiodd ar neges ei Dduw;
Diangodd oddiyma drwy angau,
Mae gartre' heb boenau yn byw.

6 Yn hen *Ystrad-Meurig* ddysgedig,
Fe'i dysgwyd yn ddiddig a rhwydd,
Trwy raddau ac urddau gweledig,
Fe'i rho'w'd yn barchedig mewn swydd;
Gweinidog i'r enwog hen Eglwys
Sefydlog, Llanwnnws oedd hon,
A Lledrod oedd hynod Lan arall,
Gwas'naethodd hwy'n ddiball a llon.

7 Wrth wrando un *Williams*, o Lanfair,
Y collodd bob hyder gael byw,
Pryd hyny y canfu o ddifri
Fod eisiau cymmodi â Duw;
Pan ddaeth y gorchymyn yn sydyn,
Adfywiodd ei bechod a'i rym,

5997.

Dan deimlad o hwnw bu farw,
A'i ddyrnod oedd chwerw a llym.

8 I'w fynwes, mi glywais, fe'i clwyfwyd,
Fe'i t'rawyd, dwysbigwyd i dre',
Nes dweyd Trowch o'r fyddin fi'n union,
Derbyniais i'm calon saeth gre';
Barn angau ddaeth adre' 'n ddwys hynod,
Nes gwaeddi am gymmod drwy ras;
Sychedodd, hiraethodd am ffynnon,
Wrth weled ei galon mor gas.

9 Trueni aneiri' a welodd,
Goleuni lewyrchodd o'r Ne',
Fel haulwen ddysglaerwen ei golau,
Dangosai 'i holl gonglau 'n ddi-ble,
Nes gwaeddi Beth fyni imi wneuthur,
Colledig bechadur wyf fi;
Mor chwerw yw marw o newyn!
Mi wela' 'rwy'n elyn i ti.

10 Ni lynaf yn llonydd, mi godaf,
Gadawaf aflanaf hen wlad,
'Rwy'n tynu dan grynu i'th wyddfod,
I 'mofyn am gymmod drwy'r gwa'd:
Cyfarfod tra hynod a gafwyd,
Ei feiau anghofiwyd o'r bron,
Ca'dd gusan o heddwch heb haeddiant,
A modrwy i'w feddiant yn llon.

11 Yr euraidd wisg oreu a ddygwyd,
Am dano fe'i gwisgwyd yn hardd,

Sef dysglaer gyfiawnder yr Iesu,
A weithiodd drwy chwysu'n yr ardd ;
Fe laddwyd y llo oedd basgedig,
Yn ddiddig fe'i dygwyd ymla'n,
I wledda ar gariad trag'wyddol,
Nes chwariodd llu nefol eu cân.

12 Dechreuodd bregethu mewn bythau,
Mynwentau, capelau, lle c'ai ;
Trwy Ogledd a Dehau fe deithiodd,
Fe lenwid y lleoedd lle b'ai :
Pregethai yr Iesu a'i swyddau,
A'i deitlau, yn olau a llawn,
Dwyfoldeb ei Berson trag'wyddol,
A rhinwedd anfeidrol ei iawn.

13 Yr Arfaeth Drag'wyddol a nefol,
Mor fuddiol yw hon yn ei lle,
Mor gyson fel moddion i godi
A chadw'r holl deulu heb ble ;
Etholiad yr Iesu, Pen-T'wysog,
Ac ynddo lu enwog heb ri',
Cyfammod rhwng hynod Dri Pherson,
Gyhoeddodd yn gyson tra bu.

14 Pur eiriau peroriaeth, a helaeth,
Cryf odiaeth am unwaith ei sain ;
Ei destyn gwiw astud oedd Iesu
Fu'n gwaedu dan goron o ddrain :
Yn fywiog a selog y safai,
Yn gadarn ei eiriau fel craig,

Iaith odiaeth a helaeth ddiwyrni,
  Fe aned yr Iesu o wraig.

15 Fel eryr cryf aden ehedai
  I ddirg'ledigaethau y gair,
Ei destyn dwys astud oedd Iesu,
  Ei eni a'i fagu gan Fair ;
Mab Duw a Mab dyn yn un Person,
  Tra chyson dangosodd ei ddawn,
A mawrwerth ei Aberth wrth farw,
  Cyfiawnder pryd hwnw gadd Iawn

16 Fel ŷch yn aredig yn ddiddig,
  Bu hefyd heb gynnyg o'i le,
Ei gwys oedd yn union a chyson,
  A'i eiriau oedd burion heb ble ;
Craff iawn oedd ei lygaid yn gweled,
  Dangosai bob niwaid o bell ;
Fe gerddodd hyd ganol y rheol,
  Nes myned i'r nefol wlad well.

17 Fe d'rawai bob pechod â'i ddyrnod,
  A'i wyneb dygasog fel llew ;
Heb dderbyn wynebau dangosai
  Lawn nodau pob beiau'n hy lew ·
Fel milwr, yn g'lonog ac enwog,
  Ymladdodd fel t'wysog â'r llu ;
Canlynai yn wrol rhagorol
  Ei Flaenor yn siriol tra bu.

18 Harddymdrech ymdrechodd, gorphenodd
  Ei yrfa, fe gadwodd y ffydd,

Sef y wir odiaeth Athrawiaeth,
  Ca'dd yma gynnaliaeth bob dydd;
Ca'dd goron gorfoledd ddilygredd,
  I'w gwisgo mewn mawredd o hyd,
Mae heddyw yn seinio Hosanna,
  Yn nghanol y dyrfa uwch byd.

19 Ca'dd fwa, a saethau, a chleddau,
  Fe'i gwisgwyd mewn arfau yn llawn,
Hen wregys gwiw euraidd gwirionedd,
  I'w lwynau, yn rhinwedd yr Iawn;
Ca'dd hefyd ddwyfroneg cyfiawnder,
  Fe safai'n ddibryder ei wedd,
Esgidiau Efengyl oedd barod,
  Gorphenodd ei ddiwrnod mewn hedd.

20 A tharian y ffydd y diffoddai
  Holl danllyd bicellau y fall,
A helm iachawdwriaeth fe'i harddwyd,
  A'i obaith gynnaliwyd heb ball;
Ca'dd nerth i orchfygu drwy gredu,
  A sefyll yn ngallu ei Dduw,
O'r diwedd ca'dd balmwydd yn arwydd
  O'r gongcwest dragywydd, gwir yw.

21 Mi glywais lais hyfryd yn d'wedyd,
  Medd Ioan, am wynfyd y saint,
'Sgrifena i goffa am hwnw
  Yn Iesu fu farw, mawr fraint;
Mae'r Ysbryd yn d'wedyd yn eglur,
  Cant orphwys o'u llafur a'u poen;

Gweithredoedd ar gyhoedd a'u canlyn,
A'u derbyn yn haeddiant yr Oen.

22 Llangeitho, waith huno'n brawd ffyddlon,
Sy'n teimlo ei chalon yn brudd,
A Sîr Aberteifi o ddifri
Yn mawr iawn alaru y sydd,
Waith colli hen dad oedd mor enwog,
A gwas oedd mor wresog ei sel;
Gadawodd ei arfau o'i wirfodd,
Diangodd i'r Nefoedd heb gel.

23 At deulu sy'n canu Hosanna,
Mor ddedwydd yw'r dyrfa mewn hedd,
Sy'n chwarau eu tannau'n drag'wyddol,
Yn siriol a nefol eu gwedd;
Eu testyn dwys astud yw Iesu,
Fu yma yn gwaedu ar bren,
Maent heddy' yn moli'n dragywydd,
Wrth weled eu Harglwydd heb len.

---

Angau yn ddiau a ddaeth——i'w alw,
Hen elyn dynoliaeth;
O'r herwydd, mewn mawr hiraeth
Gwelir llu o Gymru 'n gaeth!

Wyth deg oedd adeg ddedwydd——ei yrfa
(Un orfawr!) a thair-blwydd:
Y llon Sant, llanwai ei Swydd,—
Rho'i wirglod idd yr Arglwydd.

I foli aeth at filoedd——aneirif,
Sy'n awr yn y Nefoedd;
Peru ei lân Gân ar g'oedd,
Was Iesu, yn oes oesoedd!

DIWEDD